

MAE BYWYD A GWAED YN GYSEGREDIG

Nodyn i'r siaradwr:

Pwysleiswch mai rhodd gan Dduw ydi bywyd—rhodd ryfeddol a chysegredig i'w thrysori bob dydd a'i hystyried yn ôl golygwedd Jehofah. Gan fod perthynas agos rhwng bywyd y corff a'r gwaed sy'n ei gynnal, mae'r ddau yn gwbl gysegredig. Dangoswch mor sanctaidd ydi gwaed. (Mae geiriau Hebraeg a Groeg yn cael eu defnyddio yma i egluro'r gwahanol ymadroddion)

JEHOFAH DDUW YDI FFYNHONNELL BYWYD (6 mun.)

Mae bywyd wedi bod erioed gan nad oedd 'na gychwyn i fodolaeth Jehofah (Salm 90:2)

Ei "nerth" a'i "rym" roddodd yr egni i greu'r bydysawd (Eseia 40:26)

Cychwyn bywyd ar y ddaear oedd Duw yn gosod sylwedd bywyd i fater (Gen 1:11, 12, 20, 24; 2:7; *it-2* 246)

Ar orchymyn Jehofah, Ffynhonnell bywyd, rhoddwyd cychwyn i fywyd ar y ddaear; dim ond bywyd all genhedlu bywyd (Salm 36:9)

Fe greodd Jehofah eneidiau byw—yn anifeiliaid ac yn fodau dynol

Cyfansoddiad yr eneidiau (Hebraeg, *ne'phesh*; Groeg, *psy-khe'*) hyn oedd cyrff anianol ynghyd ag ysbryd, neu rym-bywyd (Hebraeg, *ru'ach*; Groeg, *pneu'ma*); anadlu (Hebraeg, *nesha-mah'*; Groeg, *pno-e'*) oedd yn cynnal y bywyd hwn

Mae gwaed yn hanfodol i fywyd dyn ac anifail; mae'n cludo ocsigen a maeth drwy'r corff i gynnal y grym bywyd

I'r Creawdwr, mae gwaed yn cyfateb i fywyd: Mae Lefticus 17:11-14 yn dweud fod "bywyd y corff ("enaid y cnawd," troednodyn *BC-Lan*, 1908) yn y gwaed"

Sancteiddiodd Duw fywyd a gwaed dynol a'u bendithio (Gen 1:28, 31; 9:6, 7)

Oni ddylai hyn ddylanwadu ar sut 'rydym yn meddwl ac yn gweithredu?

GWAED YN GYSEGREDIG I JEHOFAH (5 mun.)

Gan fod "enaid y cnawd . . . yn y gwaed," 'roedd deddf Duw yn gorchymyn mai dim ond yn unol â'i fwriad 'roedd gwaed i gael ei ddefnyddio

Wedi i ddyn bechu, tywalltodd Abel waed anifail yn aberth i Dduw (Gen 4:3-5)

Oherwydd i Abel ddangos ffydd wrth aberthu fe gafodd gymeradwyaeth Jehofah; ond canlyniad cwrs bywyd Cain oedd lladd Abel, ac yna dderbyn melltith Jehofah (Heb 11:4; I Ioan 3:12)

Yn yr amser gynt fe roddodd Jehofah gyfarwyddiadau manwl ar sut i ddefnyddio gwaed, ac 'roedd hyn yn amlach na pheidio yn ymwneud â bywyd hefyd

Adeg y Pasg cyntaf, yn Yr Aifft, fe gafodd yr Israeliaid eu hamddiffyn rhag marw cyntaf-anedig y teulu drwy roi gwaed ar bostyn drws eu cartrefi

Yn ôl cyfamod y Gyfraith, 'roedd gofyn aberthu anifeiliaid a thaenellu gwaed ar yr allor cyn y byddai Duw yn maddau pechodau (Heb 9:22)

Onibai am ei ddefnyddio wrth aberthu, 'roedd yn rhaid tywallt gwaed ar y ddaear; 'roedd hyn yn cydnabod mai Duw ydi rhoddwr bywyd (Lef 17:13)

'Roedd aberthau gwaed y Gyfraith yn pwysleisio fod aberth fwy i ddod—y pridwerth (Eff 1:7)

Tywalltwyd gwaed Iesu unwaith am byth yn aberth pridwerthol i faddau pechod ac arwain at fywyd tragwyddol

O wybod 'nawr sut a pham bu Iesu farw mi fedrwn werthfawrogi'n llawnach beth ydi rôl gwaed yn ein hiachawdwriaeth

JEHOFAH YN GWAHARDD CAMDDEFNYDDIO GWAED (11 mun.)

Fel dywedodd Duw wrth Noa, mae gwaed yn gysegredig (Gen 9:3-6)

Yn ôl y Gyfraith, petai dyn yn tywallt gwaed un arall, gallai perthynas agos yn ei rôl fel "dialydd gwaed" roi'r llofrudd i farwolaeth (Num 35:21-25)

Os marwolaeth trwy ddamwain ydoedd, byddai'r sawl a laddodd yn cael ffoi i ddiogelwch mewn dinas noddfa (*w95* 11/15 10-13)

Yn Actau 15:28, 29 mae cofnod am y corff llywodraethol Cristnogol yn y ganrif gynta' yn ail bwysleisio'r gwaharddiad ar gamddefnyddio gwaed (*it-1* 345-6)

Canlyniad halogi cysegredigrwydd bywyd dynol drwy dywallt gwaed ydi euogrwydd gwaed

Mae sawl ffordd y gall Cristion fod yn euog o waed

Drwy lofruddio neu weithredoedd eraill sy'n golygu achosi colli bywyd, gan gynnwys cefnogi cyfundrefnau sy'n euog o waed (Dat 17:6)

Drwy fwyta neu yfed gwaed i sicrhau maeth neu ei dderbyn yn rhan o driniaeth feddygol (Actau 15:20)

Drwy wrthod pregethu newyddion da'r Deyrnas ac felly rwystro eraill rhag clywed y wybodaeth ynddo sy'n achub bywyd (Actau 20:26, 27; *it-1* 346-7)

Mae'r ffordd mae'r byd yn dibrisio bywyd yn amlwg yn y torcyfraith sy'n ein byd ni, y trais, y rhyfeloedd, ac yn yr hyn sy'n cael ei gynnig yn "ddifyrrwch" ac "adloniant"

Mae erthylu, neu fwriadol fwrw allan embryo neu foetws, yn cael ei ystyried yn amlach na pheidio yn ffurf cyfleus ar atal cenhedlu, yn hytrach nag yn amharchu bywyd (*rs* 25-6)

Mor werthfawr ydi bywyd dynol hyd yn oed yng nghyfnod cynnar ei ddatblygiad wedi ffrwythlondeb (Salm 139:13-16)

CYDNABOD PWRPAS BYWYD (6 mun.)

O'u creu "ar ddelw Duw" mae gan fodau dynol briodoleddau fel rhai Duw a dimensiwn ysbrydol; maen' nhw'n medru gwerthfawrogi'u Creawdwr a'i addoli (Gen 1:26, 27)

Er mwyn dangos ei fod yn ystyried bywyd yn gysegredig, mae'n rhaid i unigolyn fyw ei fywyd yn unol ag ewyllys Duw (Iago 4:13-17)

Medrwn ddangos parch at gysegredigrwydd bywyd drwy dyfu'n ysbrydol, dod i wybod yn fanylach am Dduw, ufuddhau i'w orchmynion, a rhodio yn ei ffyrdd (Micha 4:1-5)

Mae gofyn am hunanaberth, a 'pheidio â byw i ni'n hunain mwyach' (2Cor 5:15)

Dylem roi heibio "drachwant y cnawd, a thrachwant y llygaid, a balchder mewn meddiannau" (1Ioan 2:16)

YMUNWCH Â JEHOFAH WRTH GYDNABOD CYSEGREDIGRWYDD BYWYD A GWAED (13 mun.)

Gan fod bywyd yn gysegredig inni, 'rydym yn ystyried dynoliaeth o safbwynt Duw a cheisio caru'n cyd-ddyn Mae hyn yn golygu'n bod ni, fel Jehofah, yn dangos consŷrn at bobl, yn dymuno nad oes neb i gael ei ddifa (2Pedr 3:9)

Er cystal ydi rhoi help meddygol neu gymdeithasol i bobl, y lles mwya' medrwn ni ei gynnig iddyn' nhw ydi eu paratoi nhw ar gyfer bywyd tragwyddol

Rhaid inni rybuddio'r drygionus i adael eu ffyrdd drwg a derbyn y ffordd sy'n arwain i fywyd—ffordd Duw (Esec 3:18, 19)

Mae disgwyl inni osgoi unrhyw beth allai arwain at euogrwydd gwaed, gan gynnwys bod yn gyfrifol am golli'n bywyd ein hun neu fywyd eraill

Fel gwnaeth y Salmydd, mae'n addas i ni weddio ar Jehofah i'n gwared ni rhag euogrwydd gwaed a gwŷr gwaedlyd (Salm 51:14)

Gwnawn ein gorau i gadw ar wahan i bob ffurf ar gau grefydd (Dat 18:4)

Gan fod gwaed yn gysegredig yng ngolwg Duw, peth drwg fyddai yfed neu fwyta gwaed neu fwyta cig anifail sy' heb ei waedu'n iawn (Actau 15:28, 29)

Pe bai Cristion yn bwyta cig anifail wedi'i dagu, ei bicellu, ei saethu neu wedi'i ddal mewn magl a hynny heb waedu'r anifail yn fuan, byddai'r Cristion yn euog o waed

Mae gwir Gristnogion yn gwrthod derbyn trallwysiad gwaed (Actau 21:25)

Er fod triniaeth feddygol di-waed yn cael ei chydabod fwy-fwy fel dewis amgen dilys, fedrwn ni ddim cymryd yn ganiataol na fydd 'na ddim pwyso ar y Cristion i dderbyn trallwysiad gwaed, ynghyd â'r holl beryglon i iechyd sy'n dod yn sgîl hynny

Ein dymuniad ydi cadw'n fyw ond wnawn ni ddim ceisio achub ein bywyd presennol dros dro os ydi hynny'n golygu torri deddfau Duw (Math 16:25)

A ninnau'n ystyried bywyd a gwaed yn gysegredig, 'rydym fel Cristnogion yn osgoi peryglu bywyd yn ddiachos

Rhaid sicrhau fod ein ceir a'n cartrefi'n ddiogel, a rhaid ufuddhau i ddeddfau traffig a deddfau diogelwch eraill

Rhaid osgoi peryglu'n bywydau er mwyn pleser a chyffro, a pheidio â chael rhan mewn chwaraeon sy'n fwriadol frifo eraill (Deut 22:8)

DANGOS YN EIN BYW BOB DYDD FOD BYWYD A GWAED YN GYSEGREDIG INNI (4 mun.)

Tyfwch mewn harmoni ag ewyllys Jehofah, a rhoi blaenoriaeth i'w gyfraith ac i'w addoli (Deut 30:19, 20)

Mae hyn yn golygu rhesymu wrth wneud penderfyniadau, gan fwriadol roddi'r lle blaenaf i wir addoliad, a pheidio â chymryd yn ganiataol y medrwn fynd ling-di-long yn y gwirionedd

Fel Crist Iesu, 'rydym yn byw bob dydd yn unol ag ewyllys Jehofah, yn ymwybodol ein bod yn atebol iddo (1Pedr 4:1, 2)

Boed inni ddangos consŷrn at gydweision Duw, a helpu eraill i ennill bywyd (Phil 2:17, 18)

Fe wnaeth Paul y peth iawn a daionus wrth ei dywallt ei hun dros eraill; dyna oedd sail yr hapusrwydd a'r bodlonrwydd a gafodd

Mi ddaw gwir hapusrwydd a bodlonrwydd i ni wrth roi ein bywyd i was'naethu Jehofah (Salm 16:11)

(Glynwch yn glôs wrth y defnydd a amlinellwyd a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)